Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Mawrth 2018

Annwyl Brif Weinidog

**Cyfarfod ar 16 Chwefror 2018**

Diolch i chi eto am ddod i gyfarfod y Pwyllgor yn y Drenewydd ar 16 Chwefror i drafod y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am nifer o faterion ac mae Aelodau wedi cytuno y dylwn i ysgrifennu mewn perthynas â rhai o'r pynciau a drafodwyd.

**Cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau sy'n cymryd rhan mewn teithiau masnach**

Cyn y cyfarfod, cynhaliodd Aelodau'r Pwyllgor drafodaeth bwrdd cwrdd gyda chynrychiolwyr o fusnesau bwyd a diod lleol. Gwnaeth nifer o'r rhai oedd yn bresennol rannu profiadau cadarnhaol o gymryd rhan mewn teithiau masnach tramor a'r cymorth a gawsant gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd, fodd bynnag, fod y costau o fynd ar deithiau o'r fath yn gallu bod yn rhwystr sylweddol i fusnesau bach. Awgrymwyd bod hyn yn fater penodol i rai sy'n mynd am y tro cyntaf a allai fod â gwybodaeth neu brofiad cyfyngedig i farnu gwerth gwneud buddsoddiadau arian ac amser.

Trafododd Aelodau gynnig y gallai Llywodraeth Cymru roi cymhorthdal pellach i gynhyrchwyr sy'n mynd ar daith masnach am y tro cyntaf – er enghraifft drwy wneud y daith am ddim – er mwyn agor y cyfleoedd hyn i fusnesau bach na fyddai

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
CraffuPW@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/CraffuPW
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
ScrutinyFM@assembly.wales
www.assembly.wales/ScrutinyFM
0300 200 6565

fel arall yn gallu ymrwymo i'r lefel o fuddsoddiad angenrheidiol. Cynnig arall posibl fyddai talu am y costau o gymryd rhan mewn briffiau cyn y daith fasnach, a allai hefyd helpu busnesau i wneud penderfyniadau mwy gwybodus o ran p'un a ydynt am gymryd rhan neu beidio.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch awgrymu nad ydych yn rhagweld y byddai unrhyw rwystrau cyfreithiol neu reoliadol i ddarparu'r math yma o gymorth ac y byddech yn ystyried y cynnig ymhellach cyn ysgrifennu atom.

## Hyrwyddo'r diwydiant bwyd a diod

Roedd hyrwyddo diwydiant bwyd a diod Cymru yn un o themâu pwysig cyfarfod y Pwyllgor a'r drafodaeth gynharach â busnesau lleol.

Trafodwyd nifer o ffyrdd gwahanol y gellir hyrwyddo cynnyrch unigol yn ogystal â diwydiant bwyd a diod Cymru yn ei gyfanrwydd. Roedd un cynnig penodol yn ymwneud â datblygu thema 'bwyd a diod Cymru' i hyrwyddo Cymru a thwristiaeth yng Nghymru, yn debyg i'r ffordd y cafodd 2017 ei dynodi yn Flwyddyn y Chwedlau. Byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau pellach ar y cynnig hwn.

Trafodwyd hefyd rôl gwobrau bwyd a diod wrth ddathlu a marchnata ansawdd cynnyrch Cymru. Fe wnaethoch awgrymu nad ydych yn credu bod angen adfywio gwobrau bwyd a diod penodol i Gymru gan fod y gwobrau Great Taste ledled y Deyrnas Unedig yn gweithio'n effeithiol i Gymru. Ym mis Ionawr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig y *byddai'n* fodlon ystyried p'un a ddylai Cymru gael ei gwobrau bwyd ei hun eto yn y dyfodol.[1] Byddem yn gwerthfawrogi eglurhad o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

## Cyflenwi cynnyrch o Gymru i fanwerthwyr mawr

Trafododd y Pwyllgor a chi yr heriau o sicrhau bod cynhyrchwyr bwyd o Gymru yn gallu cael eu cefnogi i gyflenwi eu cynnyrch i fanwerthwyr mawr. Gwnaethoch

---

[1] Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2018

gyfeirio at y cynnydd o ran faint o gynnyrch rhanbarthol sydd ar gael mewn marchnadoedd dros y blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gall sicrhau cyfleoedd i gyflenwi ar sail ehangach, er enghraifft i siopau ar draws y Deyrnas Unedig, a chael y gefnogaeth angenrheidiol i gynyddu eu cynhyrchiad fod yn her sylweddol.

Gwnaethoch ddweud bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ag archfarchnadoedd ac y byddech yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl ystyried y mater hwn ymhellach.

**Goblygiadau Brexit i'r diwydiant bwyd a diod**

Roedd elfen sylweddol o'n trafodaeth yn canolbwyntio ar Brexit a'r effaith y gallai gadael y Farchnad Sengl Ewropeaidd ei chael ar gynhyrchwyr bwyd a diod. Croesawodd y Pwyllgor y wybodaeth yr oeddech yn gallu ei rhoi mewn perthynas â materion fel yr angen i ddatblygu Fframweithiau'r DU a'r goblygiadau posibl sy'n deillio o rwystrau tariff a dim tariff i gynhyrchwyr nwyddau ar gyfer allforion, fel cig oen a physgod cregyn.

Rydym hefyd yn croesawu eich datganiad na ddylai cyllid yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a rheoli tir fod yn ddarostyngedig i Fformiwla Barnett yn dilyn Brexit sy'n adlewyrchu argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn eu hadroddiad, Dyfodol Rheoli Tir yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2017. Byddem yn gwerthfawrogi cael rhagor o wybodaeth am unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar y mater hwn.

Byddem yn gwerthfawrogi cael rhagor o wybodaeth am y materion hyn maes o law.

Yn gywir

Ann Jones

**Ann Jones AC**
**Y Dirprwy Lywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**